| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **14 CHWEFROR 2012** |
| **TEITL YR ADORDDIAD:** | **STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2012-13** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **SGRIWTINI AR Y STRATEGAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **EINIR WYN THOMAS** |
| **GWEITHREDIAD :** | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Rôl y Pwyllgor Archwilio yw sgriwtineiddio'r Strategaeth Reoli Trysorlys cyn iddo ddod yn rhan o'r argymhelliad cyllideb i'w fabwysiadu gan y Cyngor Sir.

**1.2** Cynhaliwyd gweithdy i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Swyddogion perthnasol yn ystod Ionawr. Rhoddwyd cyfle i aelodau gwestiynu'r Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys ar agweddau ar ragolygon y farchnad i'r flwyddyn nesaf ac yn fwy cyffredinol, gan gynnwys graddfeydd credyd.

**1.3** Mae'r strategaeth drafft ar gyfer 2012-13 ynghlwm.

## 2. CYNNWYS

**2.1** Mae'r strategaeth yn seiliedig ar y rhagdybiaethau arferol ar gyfer benthyca yn seiliedig ar y Cynllun busnes 30 mlynedd i'r Cyfrif Refeniw Tai ac ar ddyraniadau benthyca wedi eu cefnogi, gan Lywodraeth Cymru.

**2.2** Yn ogystal, rydym yn bwriadu cynnwys yr eitemau canlynol ar gyfer 2012/13 yn y strategaeth derfynol :-

- Benthyca i bwrpas tai yn gyson gyda'r strategaeth tai fforddiadwy;
- Cyflwyno Cynllun LIC, Awdurdodau Lleol.

**2.3** Mae swyddogion hefyd yn ystyried y budd o gymryd rhan yn y Cynllun Morgeisi Llywodraeth Leol. Bydd angen prosesau awdurdodi penodol i hyn, gan eu cyflwyno ar wahân i'r Cyngor Sir.

## 3. YSTYRIAETHAU

**3.1** Mae'r Strategaeth drafft ynghlwm yn cynnwys y cefndir manwl i'r fframwaith benthyca a buddsoddi a gweithgaredd trysorlys arall ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r tymor canol. Gwahoddir y pwyllgor i wneud sylwadau ar y strategaeth.

**3.2** Mae'r Pwyllgor Gwaith a Bwrdd y Comisiynwyr wedi penderfynu y dylai'r Cyngor gynnig benthyciadau i bwrpasau tai, o fewn y dyraniadau cyfalaf a gytunwyd i'r pwrpas. Er mwyn sicrhau strategaeth gyflawn, dylid cynnwys y rhain yn y strategaeth trysorlys.

**3.3** Ar 31 Ionawr, ysgrifennodd Cyfarwyddwr Trafnidiaeth Ll C at y Prif Weithredwr i gadarnhau manylion cynllun benthyca newydd ar gyfer llywodraeth leol i gyllido gwariant cyfalaf ar wella priffyrdd. Mae dyraniad o £4m o gyllid refeniw ar gyfer 2012/13 sy'n cynyddu i'r dyfodol. Y bwriad yw y bydd hyn yn creu gwariant cyfalaf o £170m dros dair blynedd. Dylai cyfran Ynys Môn (sef ychydig dros 3%) sicrhau gwariant o £5.25m dros dair blynedd. Rydym wedi ystyried buddsoddi fel hyn yn lleol yn y gorffennol, ac os bydd mesurau diogelu priodol mewn lle, bydd hyn yn ffynhonnell bwysig yn y dyfodol. Awgrymaf y dylai'r Pwyllgor ystyried hyn mewn egwyddor gan gefnogi cynnwys y £5.25m yn y Strategaeth.

## 4. ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor :-

**4.1** Yn ystyried cefnogi'r strategaeth.

**4.2** Nodi y bydd benthyciadau ar gyfer pwrpasau tai fforddiadwy ac a gyllidir o gyllidebau cyfalaf yn cael eu cynnig yn y strategaeth i sicrhau cyflawnhad.

**4.3** Nodi'r bwriad i ymuno a'r Cynllun Morgeisi Awdurdodau Lleol.

**4.4** Cefnogi cynnwys yn y strategaeth y £5.25m benthyca (dros dair blynedd) dan y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol.

**EINIR WYN THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH (CYLLID )** **10 CHWEFROR 2012**